funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Chwefror/Mawrth 2007

BYDDWCH DDIOGEL, BYDDWCH SICR



Yn rhifyn y mis hwn o Lais Oldford, mae llyfryn "Byddwch Ddiogel, Byddwch Sicr" sy'n cael ei gynhyrchu gan y Swyddfa Gartref. Mae'r llyfryn yn rhoi cyngor ar sut i leihau'r tebygolrwydd o fod yn destun trosedd, trwy gyngor ymarferol a syniadau ar gadw'r ddiogel.

Mae'n bwysig cofio mai yn erbyn eiddo, nid pobl, y mae'r rhan fwyaf o droseddau'n cael eu cyflawni, a bod y nifer o droseddau'n disgyn yn y rhan fwyaf o lefydd.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o droseddau'n cael eu cyflawni yng ngwres y foment, a gallwn ni oll helpu lleihau'r tebygolrwydd o fod yn destun trosedd trwy gymryd rhai camau syml.

Bob mis yn Llais Oldford byddwn yn canolbwyntio ar agwedd ar ddiogelwch personol neu gymunedol, er mwyn inni oll gymryd y camau priodol i leihau'r risg i ni'n hunain ac i'n heiddo. Gweler tudalen 4 am erthygl y mis hwn ar gadw'n ddiogel ar gludiant cyhoeddus.

Bore Coffi Cymunedau'n Gyntaf a Sioe Deithiol Cynllun Dodrefn Phoenix

Dydd Mercher 14eg Chwefror

Dewch draw i Ysgol Babanod Oldford ar ddydd Sant Ffolant i ymuno â Chymunedau'n Gyntaf ar gyfer bore coffi. Byddem wrth ein bodd yn cwrdd â chymaint o drigolion Oldford ag sy'n bosibl i drafod rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, i glywed eich barn a'ch awgrymiadau chi, neu i ddod i adnabod pobl newydd.

Bydd Cynllun Dodrefn Phoenix hefyd yn cynnal sioe deithiol yn yr ysgol ar yr un diwrnod, felly beth am ddod draw i weld beth sydd ganddynt!

Bydd y bore coffi rhwng 10.30yb a 12.30yp a bydd Dodrefn Phoenix yn aros tan tua 2.00yp.

Edrychwn ymlaen at eich gweld!

Yn y rhifyn hwn:

Bore Coffi Dydd Sant Ffolant	*1*
Dyddiadau	*2*
Penblwyddi!!	*3*
Erthygl Diogelwch	*4*
Anifeiliaid Anwes	*5*
Hyfforddiant	*6*

Y diweddaraf ar gae chwarae Scansis - tudalen 3

Cynllun 'Teen Extreme ' - tudalen 4!

Tudalen 5 Cathod a chathod bach!

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

CCB a Digwyddiad Rhwydweithio Cymunedau'n Gyntaf

Cynhaliwyd CCB Cyntaf a Digwyddiad Rhwydweithio Cymunedau'n Gyntaf Oldford ddydd Iau 21ain Rhagfyr yng Ngwesty'r Royal Oak. Pleser oedd gweld cymaint o bobl yn bresennol — daeth dros 65 o bobl i weld beth sy'n digwydd gyda rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ar Ystâd Oldford.

Rhoddwyd cyflwyniadau gan Paul Dear, pennaeth Uned Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru, Diffoddwyr Tân Ifanc Y Trallwng, Cwmni Drama Masqeurade, Chwarae Mynediad Agored a rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Oldford.

Roedd y digwyddiad yn ddathliad o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn diwethaf, a nodwyd mai o ganlyniad i gymorth gan aelodau'r gymuned y mae hyn oll wedi digwydd. Mae dros 250 o oriau gwirfoddol wedi cael eu cyfrannu gan aelodau'r gymuned i brosiectau Cymunedau'n Gyntaf yn ystod 2006. Byddem yn hoffi dweud Llongyfarchiadau a Diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith yma!!!

Hoffech chi fod yn rhan o'r rhaglen a gwirfoddoli yn ystod 2007? Oes gennych syniadau ar gyfer prosiectau i'w cyflawni yn Oldford yn y dyfodol? Os felly, ffoniwch ni ar 556648 neu gallwch gael sgwrs gydag aelod o'r Bartneriaeth.

Iaith / Rhif a Chwarae

Estynnir gwahoddiad i rieni, gofalwyr a'u babanod ddod i Raglen Chwarae a Iaith / Chwarae a Rhif er mwyn rhannu syniadau, cael hwyl, a gwneud y gorau o dreulio amser gyda'ch gilydd.

Mae babanod a phlant ifanc yn meddu ar allu anhygoel i ddysgu trwy weithgareddau amrywiol megis:

Chwarae *Canu* *Rhannu straeon*

Gwrando *Siarad* *Rhifo*

Mae Rhaglenni ChAI / ChARh am ddim ac yn hwyl!
Rhaglenni i'w cynnal yn ystod y flwyddyn mewn grwpiau yn y Trallwng.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag:
Anne Owen: 01686 614076 / 07795 052492
Ebost: anneowen@powys.gov.uk

Dyddiadau i'ch dyddiaduron....

CCB y Get Going Gang

Nos Fercher 28ain Chwefror, 7.00yh

Swyddfa Clwyd Alyn

Croeso cynnes i bawb.

Beth am gadw Dydd Llun 19eg Mawrth yn rhydd er mwyn mynd i 'Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Iechyd' sy'n cael ei drefnu gan Brocer Cymru yn y Corn Exchange. Gwyliwch hysbysfyrddau Cymunedau'n Gyntaf am fwy o wybodaeth am y digwyddiad cyffrous a newydd hwn!

Dyddiadau Hanner Tymor

12fed - 16eg Chwefror

Cofiwch am Sul y Mamau!

Dydd Sul 18fed Mawrth

Cymdeithas Tenantiaid Oldford

Blwyddyn newydd, dechrau newydd

Mae CTO yn edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous arall ac at gynrychioli tenantiaid Clwyd Alyn a byddem yn hapus i'ch croesawu i'n plith.

Yn ogystal â dod i gyfarfodydd misol, byddech yn cael cyfle i helpu codi arian ar yr ystâd, cael cyswllt gyda'r heddlu, trefnu nid yn unig y diwrnod hwyl, ond hefyd digwyddiadau llai ar gyfer plant a phobl ifanc ar yr ystâd, a chynrychioli holl denantiaid mewn perthynas â materion yn ymwneud â Chlwyd Alyn.

Mae pob tenant yn aelod o CTO, dim ond eich cynrychioli chi mae'r pwyllgor. Beth am ymuno â ni a helpu gwneud CTCA yn lle gwell fyth i fyw?

Y DIWEDDARAF AR GAE CHWARAE SCANSIS

Newyddion da! Mae Clwyd Alyn a Chyngor Tref y Trallwng wedi arwyddo cytundeb les ar gyfer Cae Chwarae Scansis amlbwrpas at bob tywydd ar ystâd Oldford. Bydd pob aelod o gymuned Y Trallwng yn gallu defnyddio'r cae, a bydd yn gaffaeliad mawr i 'r Ystâd.

Mae Cyngor Sir Powys wedi cael caniatâd i i gychwyn gwaith ar y safle a dechrau gosod seiliau i'r cae chwarae, felly dylai'r gwaith cychwyn cyn bo hir!

Diolchiadau arbennig i bawb sydd wedi cyfrannu at y prosiect yma ers y cychwyn ac i Robert Robinson, Clerc y Dref, am ei gymorth diweddar sydd wedi helpu symud y prosiect ymlaen.

Bydd pwyllgor rheoli'n cael ei sefydlu nesaf i ofalu am redeg y cae o ddydd i ddydd.

Ysgol Babanod Oldford

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yng Ngŵyl Gaeaf Y Trallwng, a llwyddodd Ysgol Oldford i godi £80.
Bu'r plant hefyd yn canu caneuon o'r sioe gerdd 'Oliver' sydd ar CD y Nadolig bydd unrhyw elw o werthu'r CD yn mynd i Uned Ofal Arbennig Babanod yn Ysbyty'r Amwythig.

Mae strategaeth yr ysgol i godi safonau darllen yn mynd yn dda, diolch i gefnogaeth y rheini sydd wedi bod yn rhannu llyfr gyda'u plant yn y bore.

Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi gan y rhieni er mwyn cyrraedd ei nodau.

PEN-BLWYDD HAPUS!!

Pen-blwydd hapus i Ciara fydd yn 8 oed ar 23ydd Ionawr! Gobeithio y cei di ben-blwydd llawn hwyl!

Cariad gan Mam, Pete a Freya xxx

Pen-blwydd hapus i Dave ar 10fed Chwefror

Cariad gan Liz xxx

Pen-bwlydd hapus Dad—10fed Chwefror

Cariad mawr gan Carl, Laura, Sarah, Sharon a Jayne

Pen-blwydd hapus Taid ar 10fed Chwefror

Cariad gan Ella, Harley, Izzy, Chloe,

Shannon, Keely a James

Mae Olive am ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ar gyfer ei gwyliau diweddar — cafodd amser bendigedig yn Awstralia — gwlad oedd yn bodloni ei holl ddisgwyliadau. Diolch am eich holl ddymuniadau da!

Llongyfarchiadau i Shireen a Craig ar enedigaeth eich merch fach.
Llongyfarchiadau i Paula a Pete ar eich dyweddïad!
Llongyfarchiadau i Hollie ac Allan ar enedigaeth eich merch fach.

LLAIS OLDFORD

Ydych chi'n hoffi bod gyda phlant?
Ydych chi wedi breuddwydio am gael eich busnes eich hunan?
Hoffech chi weithio o adref rhan amser gydag oriau sy'n addas i chi?

Beth am ddysgu mwy ynghylch bod yn warchodwr plant?

Cynhelir sesiwn briffio ar sut i fod yn warchodwr plant yng Nghanolfan Teuluol Drws Agored, Howell Drive, Y Trallwng ar 5ed Chwefror rhwng 1.00yp tan 3.00yp. Bydd y sesiwn yn cynnwys gwybodaeth ar yr hyn sydd ei angen i warchod plant, sut i gael mynediad i hyfforddiant a sut i gael cymorth i sefydlu busnes gwarchod plant.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Janet neu Jane yn y Ganolfan Drws Agored ar 01938 556238.
Os oes angen dod â'ch plant gyda chi, rhowch wybod i Janet neu Jane, a gallwn drefnu gofal plant.

'TEEN EXTREME'

Wyt ti rhwng 11 a 25 oed?
Oes gen ti ddiddordeb mewn celf stryd neu mewn dysgu sgiliau DJ?

Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnal wythnos o weithgareddau 'Teen Extreme' yn y Ganolfan Ieuenctid. Dewch draw, i gael hwyl ac i ddysgu sgiliau newydd.

Cwrs DJ	Prosiect Celf Trefol
Dydd Mawrth 13 Chwef	Dydd Iau 15 Chwef
10.00yb- 1.00yp &	10.00yb - 4.00yp
2.00yp - 4.00yp	Dydd Gwener 16 Chwef
£1.50 y sesiwn	10.00yb - 1.00yp

Mae angen archebu lle ymlaen llaw. Ffoniwch Matt neu Danielle yn y Ganolfan Ieuenctid ar 554719.

Erthygl Diogelwch

Cadw'n Ddiogel ar Gludiant Cyhoeddus

Dyma ychydig o syniadau i wneud eich teithiau'n fwy diogel. Er nad ydych yn fwy tebygol o fod yn destun trosedd ar gludiant cyhoeddus nag unman arall, trwy wneud ychydig o bethau syml, gallwch wneud yn siŵr eich bod yn cadw'n ddiogel:

Ar y bws
- **Defnyddio safle bws cyfarwydd, neu un sy'n ymddangos yn brysur gyda golau da**
- **Os ydych yn mynd i le anghyfarwydd, gofynnwch i ffrindiau gwrdd â chi ar ddiwedd eich taith**
- **Eisteddwch yn agos at y gyrrwr**

Ar y trên
- **Arhoswch ar ddarn o'r platfform lle mae golau da, yn agos at bobl eraill**
- **Eisteddwch mewn cerbyd sy'n brysur ym mlaen y trên**
- **Os ydych yn teimlo'n anghyfforddus, dylech ystyried gadael y cerbyd a mynd i gerbyd arall, neu hyd yn oed gadael y trên yn gyfan gwbl**

Ar y tiwb
- **Eisteddwch mewn cerbyd ym mlaen y trên**
- **Os bydd rhywun yn gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus, dylech adael y tiwb a disgwyl am y nesaf**
- **Yn hwyr y nos, trefnwch i ffrindiau neu aelod o'r teulu gwrdd â chi ar ddiwedd eich taith**

Mewn tacsi
- **Defnyddiwch gwmni tacsi sy'n gyfarwydd i chi mor aml ag y gallwch, neu un y mae aelod o'r teulu neu ffrind yn ei ddefnyddio**
- **Os byddwch yn trefnu tacsi dros y ffôn, gofalwch fod y gyrrwr yn gwybod eich enw a phen eich taith, i wneud yn siŵr eich bod yn y tacsi cywir**
- **Dylech gael eich arian a'ch allweddi'n barod er mwyn gallu mynd i'ch cartref yn gyflym ar ddiwedd eich taith**
- **Os byddwch yn teimlo'n anghyfforddus mewn tacsi, gofynnwch i'r gyrrwr stopio mewn lle prysur sy'n gyfarwydd i chi a gadael y car**

CATHOD A CHATHOD BACH

Pethau bach annwyl, 'tydyn nhw? Gallwch weld hyn o'r holl galendrau gyda chathod bach sydd ar werth dros y Flwyddyn Newydd! Ond, buan mae cathod bach yn tyfu, a chyn troi rownd, bydd ganddyn nhw gathod bach eu hunain.
Ac eto. Ac eto….. Mewn pum mlynedd, gall cath fenywaidd fod yn gyfrifol am 20,000 o ddisgynyddion! A chyn pen dim, mae cathod ym mhob man. Gall sefyllfa fel hon fod yn niwsans i bobl, ac mae'r cathod hefyd yn gallu dioddef oherwydd cynnydd mewn clefydau.

Ond yn ffodus, mae'n hawdd atal hyn! Trwy ysbaddu cathod, gellir rheoli cynnydd yn y boblogaeth. Gellir ysbaddu cathod benywaidd, a disbaddu rhai gwrywaidd.

Oes gennych chi (neu ydych chi'n adnabod rhywun sy'n berchen ar) gath heb ei ysbaddu? Os felly, gall y gymdeithas Gwarchod Cathod eich helpu. Mae'r elusen hon yn poeni cymaint ynghylch y nifer o gathod heb eu hysbaddu, mae'n fodlon helpu hyd at bron 50% o gost yr ysbaddu! Mae hyn yn golygu y gellir ysbaddu cath fenywaidd am gyn lleied â £26.00 ym Milfeddydfa Camlas y Trallwng, a gellir disbaddu cath wrywaidd am gyn lleied â £15.50.

Y cwbl sydd angen ei wneud yw ffonio'r gymdeithas Gwarchod Cathod ar y rhif isod, a byddan nhw'n dweud wrthych os ydych yn gymwys i gael help. Os ydych yn gymwys, bydd y filfeddygfa lle bydd yr ysbaddu'n digwydd yn derbyn taleb, a bydd gwerth y daleb yn cael ei dynnu o'r gost derfynol. Y cwbl fydd angen i chi wneud yw talu'r gweddill wrth gasglu'r gath ar ôl y llawdriniaeth.

Os byddwch yn meddwl y gall y gymdeithas Gwarchod Cathod helpu chi neu ffrind gyda chost ysbaddu cath, ffoniwch nhw neu Filfeddygon Camlas i weld yr hyn gellir ei wneud.

Cymdeithas Gwarchod Cathod: 01686 670265
Milfeddygon Camlas: 01938 553124

Undeb Credyd Robert Owen

Clwb Nadolig

Hoffech chi ymestyn cost y Nadolig dros gyfnod, ond yn poeni os bydd eich arian yn ddiogel? Os byddwch yn ymuno â Chlwb Nadolig yr Undeb Credyd, gallwch fod yn siŵr fod eich cynilion yn ddiogel.

Gallwch gynilo cyn lleied â £1 yr wythnos, gwario'ch arian ble y mynnoch, a chael eich arian yn barod ar gyfer y Nadolig.

Cynilion i Blant

Mae annog plant i gynilo yn ffordd wych o'u helpu i ddeall gwerth arian, trwy gynilo ar gyfer rhywbeth arbennig.
Mae plant yn gallu cynilo gyda'r Undeb Credyd a gwylio eu harian yn tyfu!

Os am ymuno â'r Clwb Nadolig, cychwyn cynilon i'ch plant, neu ddysgu am ein gwasanaethau eraill, galwch heibio unrhyw un o swyddfeydd yr Undeb Credyd ar y dyddiau canlynol:

Swyddfa Tai Clwyd Alyn
Dydd Iau 4yp - 6yh

Tŷ'r Eglwys, Y Trallwng
Dydd Sadwrn 9.30yb - 11.30yb

Ysgol Babanod Oldford
Dydd Iau 8.30yb

Ysgol Babanod Gungrog
Dydd Gwener 8.45yb

Ysgol Maesydre
Dydd Iau 8.45yb

Neu ffoniwch yr Undeb Credyd ar 01686 623741

B&Q GWOBRAU 'YOU CAN DO IT'

Cynllun gwobrwyo blynyddol yw Gwobrau 'You Can Do It' B&Q, sy'n cynnig cyfle i grwpiau cymunedol megis clybiau chwaraeon lleol, elusennau, ysgolion, clybiau anabledd, amgylcheddol ac ieuenctid trwy Brydain gyfan, gychwyn prosiectau sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i bobl leol. Mae ugain o wobrau gwerth hyd at £5,000 o nwyddau B&Q ar gael ar gyfer prosiectau adnewyddu ac ailwampio. Gellir gwneud cais am wobrau 2007 rhwng 29 Ionawr a 30 Mawrth 2007.

Ceir manylion pellach ar:
www.diy.com/awards
Ffôn: 0845 301 1001

Cyfleoedd Hyfforddi Cymunedau'n Gyntaf

Cwrs Sgiliau Pwyllgora

Cwrs i bobl sydd yn aelodau o bwyllgor.

Ymysg y sgiliau i'w dysgu:

- Rolau a chyfrifoldebau swyddogion
- Trefnu cyfarfodydd
- Lleisio barn
- Delio â gwrthdaro
- Cael cyfarfodydd pleserus

Cwrs Cymorth Cyntaf yn y Gweithle

Ar ôl y cwrs 4 diwrnod hwn, byddwch yn gymwys i fod yn swyddog cymorth cyntaf yn y gweithle neu mewn rôl wirfoddol.

Bydd angen i unrhyw un sydd am fynychu, dangos sut bydd y cwrs o fudd iddynt yn bersonol, neu i gymuned Oldford at ei gilydd.

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am y cyrsiau uchod, neu os hoffech gofrestru, cysylltwch â swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 01938 556648.

AR WERTH

Siwtiau Sgïo

(1) Dau-ddarn mewn coch; maint canolig Heb ei wisgo. Costiodd £110 - yn fodlon derbyn £50.

(2) Un-darn lliw gwyn gyda thrim lliw. Cyflwr da iawn. Maint—Canolig. £25.

Peiriant Cyhoeddi Pen Bwrdd (Brother)

Heb ei ddefnyddio'n aml, ac mewn cyflwr gwych. Llyfryn cyfarwyddiadau cyflawn a disgiau sbâr. Costiodd £200 - yn fodlon derbyn £75.

Ffoniwch: 01938 552960

Tripiau Bysiau Cwmni Tanat Valley

'The Charm of Ireland'
Llun 23 Ebrill 2007
(6 Diwrnod)
O £235

Ballroom Dancing Weekend, Blackpool
Gwen 16 - Llun 19 Chwefror 2007
£125 y pen—rhannu ystafell

Bysiau'n casglu o'r Trallwng
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01691 780 212

I'W HURIO

Mae gan Gymdeithas Tenantiaid Oldford lwyfan cludadwy i'w hurio. Mae'r llwyfan yn hyblyg iawn, a gellir ei addasu yn ôl anghenion eich grŵp. Bydd angen i chi ei gasglu a'i ddychwelyd.

Ffoniwch: Sian ar 554181 neu Liz ar 555269.

Dyddiadau Cau Cylchlythyr Llais Oldford

Mae dyddiadau cau cylchlythyrau eleni fel a ganlyn:

Rhifyn Ebrill/Mai –Dydd Gwener 23 Mawrth

Rhifyn Mehefin/Gorffennaf - Dydd Gwener 18 Mai

Rhifyn Awst/Medi - Dydd Gwener 20 Gorffennaf

Rhifyn Hydref/Tachwedd - Dydd Gwener 21 Medi

Rhifyn Rhagfyr/Ionawr - Dydd Gwener 23 Tachwedd

Byddem wrth ein bodd yn derbyn eich newyddion, hanes llwyddiant, adroddiadau ar ddigwyddiadau, hysbysebion digwyddiadau yn y dyfodol neu wybodaeth am grwpiau lleol. Gallwch naill ai ddod â'ch cyfraniadau i Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf, eu hebostio at: mandy.roberts@powys.gov.uk, neu ffonio ni ar 556648.